

Croeshoeliad ac Atgyfodiad yr Iesu


Wedi mynd i mewn i Jerwsalem mor orfoleddus, fe wnaeth yr Iesu ddioddef llawer: fe wnaeth Jwdas ei fradychu. Fe wnaeth Pedr wadu ei fod yn adnabod yr Iesu. Aeth y disgyblion a'i adael a chwerthin arno wnaeth y bobl. Yna bu farw ar y groes. Nid oedd yr Iesu wedi gwneud unrhyw beth i haeddu hyn. Ond roedd yn gwybod bod hyn yn mynd i ddigwydd. Dyma oedd ei bwrpas a'i genhadaeth: marw oherwydd y pethau drwg da ni'n eu gwneud fel ein bod ni'n cael bywyd am byth gydag E'. Ond a yw rhywun sy wedi marw yn gallu cynnig bywyd am byth? Na! Felly, dri diwrnod wedi iddo farw, daeth yr Iesu o farw'n fyw. Dyna pam rydym ni mor hapus ac yn gallu dweud: Mae'r Iesu wedi codi!



"Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw." Ioan 11:25

Beth sy'n digwydd yn y lluniau hyn?

Beth yw trefn cywir beth sy'n diawydd yma?



Ydych chi'n gwybod beth mae'r Beibl yn ei ddweud yn Ioan 3:16?



[Gwers 23]

Croeshoeliad ac Atgyfodiad yr Iesu

Testun y Beibl: Luc 22, 23, 24:1-12.

Adnod allweddol: John 11:25.

Pwrpas: Bydd y plant yn darganfod arwyddocâd croeshoeliad ac atgyfodiad yr Iesu.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Cyflwynwch y wers cyn gweithio ar y dudalen liwio.

Awgrymiadau:

Ar gyfer plant ieuengach, dywedwch y stori gan ddefnyddio lluniau o Feibl plant. Wrth i chi drafod, gwnewch yn siŵr fod y plant yn deall cariad Duw, aberth yr Iesu a bywyd tragwyddol. Dylai atebion fod yn syml er mwyn i'r plant eu deall.

I blant hŷn, rhannwch hwy'n dîmau o 2 neu fwy. Gall pob plentyn wneud rhywbeth. Gall un ddarllen testun y Beibl, tra bo eraill yn gofyn y cwestiynau am y testun. Helpwch y plant i drafod y cwestiynau, gan ddefnyddio'r syniadau hyn:

Testunau a chwestiynau

Tîm #1: Luc 22:1-30

Beth yw ystyr y Pasg i bobl Iddewig?

Beth yw ystyr y Pasg i chi?

Gyda phwy y bu'n Iesu'n dathlu'r Pasg?

Gyda phwy fyddwch chi'n dathlu'r Pasg?

Beth wnaeth yr Iesu cyn bwyta?

Fyddwch chi'n gweddïo cyn bwyta?

Pwy sy'n fawr yng ngolwg Duw?

Ydych chi'n fawr yng ngolwg Duw?

Tîm #2: Luc 22:31-53

Sut oedd yr Iesu'n gwybod y byddai Pedr yn ei wadu?

Ydi'r Iesu'n gwybod beth sy yn eich calon chi?

Beth yw ystyr gwadu'r Iesu?

Fuodd erioed gywilydd arnoch i ddweud wrth eich ffrindiau yn yr ysgol eich bod yn

blentyn i Dduw?

Pa gwpan y gweddiodd yr Iesu iddo gael ei gymryd oddi wrtho?

Ydych chi'n barod i wneud beth mae Duw yn ofyn i chi ei wneud?

Beth ddywedodd yr Iesu wrth y disgyblion pan welodd eu bod yn cysgu?

Ydych chi'n effro neu'n cysgu?

Sut wnaeth Jwdas fradychu'r Iesu?

Wnaethoch chi fihafio fel Jwdas rywdro tuag at rywun agos i chi?

Beth wnaeth yr Iesu i'r dyn gollodd ei glust?

Beth fyddwch chi'n ei wneud pan mae rhywun yn eich brifo?

Tîm #3: Luc 22:54-71 a 23:1-25

Beth wnaeth Pedr wedi iddo wadu'r Iesu?

Beth da chi'n ei wneud wrth sylweddoli eich bod wedi gwneud rhywbeth drwg?

Beth oedd ymateb yr Iesu wrth i'r bobl wneud hwyl ar ei ben a'i guro?

Sut da chi'n ymateb os oes rhywun yn gwneud hwyl ar eich pen am eich bod yn Gristion?

Oedd yr Iesu'n euog yng ngolwg Herod a Peilat?

Pan fyddwch chi'n cael eich beio am rhywbeth, ydych chi'n euog neu'n ddiheuog?

Tîm #4: Luc 23:26-56

Sut wnaeth yr Iesu ddioddef ar y groes?

Beth yw ystyr croes yr Iesu i chi?

Beth wnaeth y troseddwr, oedd yn cael eu croeshoelio'r un pryd, ddweud wrth yr Iesu?

Fel pa un o'r ddau droseddwr yr hoffech chi fod?

Pwy wnaeth gladdu'r Iesu?

Beth yw'r weithred dda olaf wnaethoch chi dros yr Iesu?

Pam y bu Iesu farw?

Ydych chi'n credu bod Iesu wedi marw am y pethau drwg wnaethoch chi - eich pechodau?

Tîm #5: Luc 24:1-12

Beth wnaeth y gwagedd weld yn y bedd?

Beth wnaeth y gwagedd pan welon nhw fod y bedd yn wag?

Ydych chi'n credu bod Iesu wedi atgyfodi?

Ydych chi'n dweud wrth eraill beth mae'r Iesu wedi'i wneud yn eich bywyd chi?

Pa bryd wnaeth yr Iesu godi o farw'n fyw?

Pa bryd wnaethoch chi dderbyn yr Iesu i'ch bywyd?

II. Gweithgareddau

1. Yr Adnod Allweddol

a. Darllenwch yr adnod allweddol yn uchel.

“Fi ydy’r atgyfodiad a’r bywyd. Bydd pawb sy’n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw.” Ioan 11:25b. Eglurwch yr adnod:

“Fi ydy’r atgyfodiad a’r bywyd” – dim ond yn yr Iesu y mae bywyd tragwyddol.

“Bydd pawb sy’n credu ynof fi yn dod yn fyw” – dim ond y rhai sy’n credu mai Mab Duw yw’r Iesu fydd yn byw am byth.

“Er iddyn nhw farw” – nid marwolaeth yw’r diwedd. Wedi i’r corff farw, bydd yr enaid yn dal i fyw.

c. Helpwch y plant i ddysgu’r adnod.

2. Adolygwch y cwestiynau ar gyfer y plant?

- Pwy yw’r Iesu?
- Pam y bu’n rhaid i’r Iesu farw?
- Pwy wnaeth anfon yr Iesu i’r byd i farw dros bechaduriaid?
- Pam wnaeth Duw y Tad adael i’r Iesu farw ar y groes?
- Pam da ni’n credu yn yr atgyfodiad?
- Pwy fydd yn byw am byth yn y nefoedd?

III. Diweddgllo

Gwnaeth yr Iesu lawer o bethau rhyfeddol drosodd chi. Derbyniwch ef heddiw! Dim ond y rhai sydd wedi derbyn yr Iesu i’w bywydau fydd yn cael bywyd am byth gydag ef yn y nefoedd.

